**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Medi 2016**

## RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

**Adroddiad gan Dawn Docx, Trysorydd dros dro yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'n un o ofynion Cod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf fod y Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Felly hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, mae angen i unrhyw newidiadau i bartïon i gontract yr Awdurdod gael eu hadrodd i'r Aelodau.

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Medi 2016 er mwyn adolygu cynnwys yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

3 Cafodd y Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016-2017 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 21 Mawrth 2016. Ers iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2016-2017 ymlaen wedi newid. Hefyd, bu benthyciadau newydd, a newidiadau i'r rhestr o bartïon i gontract.

## Dangosyddion Darbodus 2016-2017

4 Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016-2017 wedi newid oherwydd bod y gwariant mewn gwirionedd ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2015-2016 yn llai na'r alldro amcanol. Isod, ceir esboniad o'r hyn y mae pob Dangosydd Darbodus yn ei olygu:

- mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn fesur o'r ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod
- mae'r Ffin Weithredol yn fesur o uchafswm posib y ddyled allanol, gan ragweld llifiadau arian yn mynd i fyny ac i lawr
- y Terfyn Awdurdodedig yw amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad o ofynion gweithredol a risgiau allanol.

5 Mae'r tri dangosydd allweddol hyn wedi newid ar gyfer 2016-2017. Mae gwariant cyfalaf wedi cynyddu'n uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, a hynny oherwydd bod cynlluniau na chwblhawyd yn llwyr yn 2015-2016 yn mynd drosodd i 2016-2017. Mae Atodiad A yn rhestru'r dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth, ynghyd â'r dangosyddion diwygiedig.

## Benthyciadau Newydd

6 Hyd yn hyn eleni, cymerwyd un benthyciad newydd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i ddisodli benthyciad sydd wedi aeddfedu ac i gefnogi'r rhaglen cyfalaf. Mae gan yr Awdurdod werth £13,000,000 o fenthyciadau tymor byr wedi'u cymryd allan gyda awdurdodau lleol eraill gan fod y cyfraddau llog yn is na'r hyn a gynigid gan y PWLB. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio adnewyddir £13,000,000 o'r benthyciadau hyn gyda awdurdodau lleol eraill pan maent yn aeddfedu, yn dibynnu ar y cyfraddau llog sydd ar gael ar y pryd. Nodir isod fanylion y benthyciadau newydd ar gyfer 2016/17:-

| Prifswm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Darparwr y Benthyciad |
|---|---|---|---|---|
| 1,500,000 | 1.5 | 05/05/2016 | 6 ½ blynec | PWLB |
| 2,000,000 | 0.52 | 01/04/2016 | 6 mis | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Swydd Gaint |
| 3,000,000 | 0.55 | 31/05/2016 | 6 mis | Cyngor Metropolitanaidd Oldham |
| 2,000,000 | 0.52 | 13/06/2016 | 6 mis | Cyngor Middleborough |
| 1,000,000 | 0.47 | 01/07/2016 | 6 mis | Cyngor Dosbarth Epping Forest |
| 2,000,000 | 0.56 | 02/06/16 | 9 mis | Cyngor Dosbarth De Gwlad yr Haf |

## Partïon i Gontract a Buddsoddiadau

7 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2015/16, a gafodd ei chymeradwyo gan yr Aelodau ym mis Mawrth, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer partïon i gontract

(1) Y Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5m

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio y gyfradd wedi ei chapio) – terfyn £2m

(3) Pob banc Prydeinig a Gwyddelig a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddiad da (Fitch neu debyg). Ar hyn o bryd, diffinnir hyn fel:

| | |
|---|---|
| Tymor byr | F1 |
| Tymor hir | A |
| Cyfradd Dichonoldeb | bbb |

Terfyn - £5m

Defnyddir banciau sydd â'u cyfraddiad yn disgyn yn is na'r rhai yn y tabl uchod os bydd adnau cyfanwerthol yn dod dan warant y llywodraeth, a'r adnau'n disgyn o fewn telerau'r gwarant.

(4) Mae gan bob Cymdeithas Adeiladu sydd â chyfraddiad (fel gyda'r sector bancio) derfyn benthyca sy'n £2m.

(5) Mae gan Gymdeithasau Adeiladau sydd heb gyfraddiad, ond sydd ag asedau sy'n £1 biliwn neu ragor, derfyn sy'n £2m gyda therfyn amser o 9 mis.

8 Ceir rhestr o'r partïon cyfredol i gontract yn Atodiad B, bu rhai newidiadau i'r rhestr ers yr adroddiad diwethaf i'r Aelodau.

9 Y prif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf buddsoddi'r Awdurdod yw sicrwydd ei fuddsoddiadau. Mae'r ansicrwydd ynghylch teilyngdod credyd ei bartïon i gontract wedi lleihau ac mae ymgynghorwyr ein trysorlys nawr yn argymell y dylai'r terfyn amser ar gyfer buddsoddiadau fod yn uchafswm o 6 mis, mae hyn wedi cynyddu o'r cyngor blaenorol mai uchafswm o 3 mis y dylai fod. Ar hyn o bryd, mae'r arian dros ben sydd i'w fuddsoddi yn uwch na'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei ddal fel arfer gan fod y Grant Atodol blynyddol gan Lywodraeth Cymru, at y pensiynau, newydd ddod i law. Mae'r arian

dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn dau gyfrif galw gyda Barclays a'r Bank of Scotland, sy'n caniatáu mynediad at yr arian ar unwaith. Gan fod taliadau pensiwn yn cael eu gwneud drwy gydol y flwyddyn, bydd lefel yr arian dros ben yn gostwng. Yn y tymor byr, defnyddir rhywfaint o'r arian parod dros ben i gefnogi'r rhaglen gyfalaf felly pan fydd benthyciadau'n aeddfedu ni threfnir rhai eraill yn eu lle ar unwaith. Dyma'r buddsoddiadau a ddelid ar 31 Awst.

| Prifswm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Darparwr y Benthyciad |
|---|---|---|---|---|
| 4,360,000 | 0.40 | Ddim yn berthnasol | Galw | Bank of Scotland |
| 1,180,000 | 0.25 | Ddim yn berthnasol | Galw | Barclays |

## Rheoli'r Trysorlys a Brexit

10 Ymateb y farchnad i wrthbwyso risgiau posibl i'r economi o ganlyniad i'r refferendwm oedd gostwng y gyfradd sylfaenol o 0.5% i 0.25%. Mae'r gostyngiad yn y cyfraddau wedi cael ei adlewyrchu mewn benthyciadau newydd, gyda benthyciadau 6 mis ar gael am gyn lleied â 0.2%. Fodd bynnag, ar yr ochr negyddol, mae'r gyfradd y mae'r Awdurdod yn ei chael ar un cyfrif galw wedi gostwng i 0.25%. Mae unrhyw ostyngiad yn y cyfraddau llog yn fanteisiol i'r Awdurdod gan eu bod mewn sefyllfa fenthyca net bob amser.

## Argymhellion

11 Gofynnir i Aelodau:

(i) gymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig a nodir yn Atodiad A;
(ii) nodi'r Partïon i Gontract a restrir yn Atodiad B;
(iii) nodi'r benthyciadau newydd.

***ATODIAD A***

## DANGOSYDDION DARBODUS

| | | 2016/17 £ | 2017/18 £ | 2018/19 £ |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 4,014,000 | 5,150,000 | 2,825,000 |
| | Dangosydd Newydd | 6,110,271 | 5,150,000 | 2,825,000 |
| 2 | Gofyniad Cyllid Cyfalaf | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 35,577,000 | 37,901,000 | 37,751,000 |
| | Dangosydd Newydd | 36,815,818 | 39,024,075 | 38,758,480 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 37,577,000 | 39,900,000 | 39,751,000 |
| | Dangosydd Newydd | 38,815,818 | 41,024,075 | 40,758,480 |
| 4 | Ffin Weithredol | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 35,577,000 | 37,901,000 | 37,751,000 |
| | Dangosydd Newydd | 36,815,818 | 39,024,075 | 38,758,480 |
| 5 | Cymhareb y Costau Cyllido Llif Refeniw Net | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 10.63% | 11.52% | 11.99% |
| | Dangosydd Newydd | 9.94% | 11.45% | 12.45% |
| 6 | Ardrawiad Cynyddrannol y Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan y Awdurdodau Cyfansoddol | | | |
| | Dangosydd Gwreiddiol | 50,000 | 564,000 | 1,260,000 |
| | Dangosydd Newydd | 77,000 | 617,000 | 1,312,000 |

**Atodiad B**

## PARTÏON I GONTRACT BUDDSODDIADAU

**Banciau – £5m o Derfyn**
Barclays, HSBC, Lloyds, Santander UK a Bank of Scotland.

**Llywodraeth Ganol – £5m o Derfyn**
Swyddfa Rheoli Dyledion

**Awdurdodau Lleol - £2m o Derfyn**
Pob un ac eithrio'r rhai sy'n agored i gyfyngiad treth cyngor a praeseptiau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 h.y. wedi eu 'capio' yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Cymdeithasau Adeiladu (cyfraddedig) - £2m o Derfyn**

Nationwide

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau yn £1bn) - £2m/9mis o Derfyn**

Cambridge, Coventry, Leeds, National Counties, Nottingham, Progressive, Saffron a Yorkshire.